estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales



# Datblygu Medrau Darllen Cymraeg Disgyblion 10-14 oed

**Medi 2024**

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

**Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru.**

**© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad/y cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Crynodeb gweithredol** **1**

**Argymhellion** **3**

**Cyflwyniad** **4**

**Cefndir** **5**

**Safonau ac agweddau at ddarllen** **7**
Medrau sylfaenol ac uwch-fedrau darllen 7
Darllen ar goedd 10

**Darpariaeth ac Arweinyddiaeth** **13**
Profiadau dysgu ac addysgu 13
Arweinyddiaeth a chynllunio ar gyfer gwella 14
Strategaethau i adnabod darllen fel blaenoriaeth ysgol gyfan 16
Rôl y Cydlynydd Llythrennedd 18
Cynlluniau trosglwyddo 20
Cyfathrebu gyda rhieni 20
Unedau Trochi a chanolfannau iaith 21

**Diwylliant o ddarllen** **22**
Amgylchedd ddysgu 22
Barnau disgyblion 22
Gweithgareddau i hybu diwylliant o ddarllen 25

**Atodiad 1** **27**

**Dulliau a sail y dystiolaeth** **34**

**Geirfa** **36**

**Cyfeiriadau** **37**

# Crynodeb gweithredol

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad ar fedrau darllen Saesneg disgyblion 10-14 oed gan Estyn yn Mai 2023, fe aethom ati i lunio adroddiad ar sut mae ysgolion Cymraeg a dwyieithog yn datblygu medrau darllen Cymraeg disgyblion ar draws y cwricwlwm. Yn Hydref 2023, fe wnaethom ymweld ag ugain o ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, yn ogystal ag unedau trochi i werthuso medrau darllen Cymraeg disgyblion ar draws y cwricwlwm ym Mlwyddyn 6 a Blynyddoedd 7-9, gan edrych ar yr hyn y mae ysgolion yn ei wneud i ddatblygu'r medrau hyn. Dewiswyd ysgolion yn seiliedig ar eu maint, math, lleoliad daearyddol a'u cyd-destun economaidd-gymdeithasol i ddarparu trawstoriad o ysgolion yng Nghymru. Ym mhob ysgol yr ymwelwyd â hi, cynhaliwyd cyfarfodydd gydag uwch arweinwyr, cydlynwyr llythrennedd, athrawon a disgyblion. Arsylwom sesiynau lle roedd medrau darllen yn cael eu datblygu neu'u hatgyfnerthu. Edrychom ar waith disgyblion ac unrhyw ddogfennau oedd gan yr ysgol ar ddatblygu medrau darllen ac ar drefniadau pontio. Yn ogystal, cynhaliwyd arolwg disgyblion yn Eisteddfod yr Urdd ym mis Mehefin 2023 a dosbarthwyd holiadur i'r ysgolion hynny o fewn y sampl ac fe ymatebodd dros ddwy fil o ddisgyblion. Gwnaethom hefyd dynnu ar dystiolaeth o arolygiadau cynradd, uwchradd a phob oed o ysgolion y tu allan i'r sampl yn ystod 2023-24.

Mae ein hadroddiad ar fedrau darllen Cymraeg yn amlinellu nifer o gryfderau a'r meysydd sydd angen mynd i'r afael â nhw i sicrhau gwelliannau. Yn ychwanegol i'r enghreifftiau o arfer dda yn yr ysgolion, rydym wedi cynnwys canllawiau penodol er mwyn helpu ysgolion i gryfhau eu harferion wrth ddatblygu medrau darllen disgyblion. Mae'r bennod gyntaf, 'Safonau ac agweddau disgyblion' yn canolbwyntio ar ddatblygiad medrau darllen disgyblion ar draws y cwricwlwm ac agweddau disgyblion tuag at ddarllen. Mae gan yr ail bennod ddwy ran. Mae'r rhan gyntaf, 'Profiadau addysgu a dysgu' yn ystyried yr arlwy sy'n cael ei gynnig gan ysgolion i gryfhau medrau darllen disgyblion tra bod 'Arweinyddiaeth a chynllunio ar gyfer gwella' yn nodi sut mae arweinwyr yn blaenoriaethu darllen yn eu hysgolion. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn edrych ar ddarpariaeth o fewn yr unedau trochi. Mae'r drydedd bennod, 'Hybu diwylliant o ddarllen' yn disgrifio'r modd y mae ysgolion effeithiol yn creu diwylliant darllen yn llwyddiannus ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn llawn. Mae Atodiad 1 yn rhestru'r ymatebion i'r holiadur disgyblion a ddosbarthwyd i'r ysgolion hynny o fewn y sampl ac ymatebodd dros ddwy fil o ddisgyblion.

Nid yw'n syndod bod effaith negyddol y pandemig yn parhau yn glir ar safonau darllen Cymraeg disgyblion yn gyffredinol, gyda'r lleiafrif wedi colli'r hyder i gyfathrebu a darllen yn y Gymraeg. Mae bron pob disgybl yn y sampl ac a wnaeth ymateb i'n holiaduron yn deall pwysigrwydd darllen i gefnogi eu dysgu a'u cyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol. Fodd bynnag, i fwyafrif y disgyblion, mae eu mwynhad o ddarllen yn gostwng o 10 i 14 oed.

Mae llawer o bobl ifanc 10 i 14 oed yn defnyddio medrau darllen sylfaenol, fel anodi, lleoli a llithr ddarllen gwybodaeth yn llwyddiannus i ganfod prif negeseuon a gwybodaeth allweddol. At ei gilydd, mae cyfran uwch o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn

gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau darllen uwch nag ym Mlynyddoedd 7-9. Mae hyn yn rhannol oherwydd yr heriau o gydlynu datblygiadau medrau darllen yn gyson ar draws yr ystod o bynciau ac athrawon yn y cyfnod uwchradd. Dengys ein canfyddiadau bod y cyfleoedd mwyaf buddiol i ddatblygu medrau darllen i'w gweld mewn gwersi Cymraeg neu sesiynau iaith ac o fewn pynciau'r dyniaethau. Fodd bynnag, nid yw uwch-fedrau darllen mwyafrif y disgyblion ym Mlynyddoedd 7-9 yn datblygu cystal oherwydd diffyg cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu'u medrau darllen ar draws y cwricwlwm.

Roedd llawer o'r cryfderau a'r diffygion a ganfuom yn y thematig darllen Saesneg hefyd yn amlwg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Er bod arweinwyr ym mron pob ysgol yr ymwelwyd â nhw yn cydnabod pwysigrwydd blaenoriaethu datblygiad medrau darllen disgyblion, yn aml nid oedd hyn yn arwain at ddarpariaeth effeithiol ar draws y cwricwlwm, yn enwedig yn y sector uwchradd. Megis dechrau mae'r gwaith o gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion yn y mwyafrif o ysgolion uwchradd. Nid oedd arweinwyr yn y lleiafrif o ysgolion cynradd a'r mwyafrif o ysgolion uwchradd a phob oed yn defnyddio ystod digon eang o dystiolaeth i adnabod yr union agweddau sydd angen eu gwella a chynllunio camau gweithredu perthnasol. Roeddent yn or-ddibynnol ar ddata yn unig, yn hytrach na'i gyfuno â thystiolaeth uniongyrchol o gynnydd disgyblion o wersi a llyfrau. Lleiafrif yn unig o arweinwyr oedd yn monitro ac yn gwerthuso effaith strategaethau darllen ar draws yr ysgol yn ddigon cadarn. Prin yw'r cynlluniau neu lwyfannau darllen sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg o gymharu â'r Saesneg i helpu ysgolion i fonitro cynnydd darllen disgyblion.

Mae ein canfyddiadau'n dangos mai ychydig iawn o glystyrau o ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n cyd-gynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Mae hyn hefyd yn wir mewn llawer o ysgolion pob oed, sy'n dysgu disgyblion o'r cyfnodau cynradd ac uwchradd. Rhwystr i'r cynllunio hwn yw maint y clwstwr a'r ffaith bod nifer o ysgolion cynradd o fewn dalgylch mwy nag un ysgol uwchradd neu, ar adegau, yn draws-sirol.

Mae'r unedau trochi a'r canolfannau iaith wnaethom ymweld â nhw yn gwneud gwaith effeithiol yn datblygu medrau Cymraeg disgyblion sy'n trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg yn hwyr. Defnyddiodd athrawon derminoleg a geirfa pwnc yn gywir ac yn gyson a oedd yn caniatáu i ddisgyblion ddatblygu fel siaradwyr rhugl. Gwna'r disgyblion yma gynnydd cyflym a llwyddiannus yn eu medrau darllen Cymraeg.

Mae llawer o ysgolion cynradd ac ychydig o ysgolion uwchradd yn hyrwyddo darllen er pleser yn llwyddiannus. Fodd bynnag, yn gyffredinol, gwelwyd bod y profiadau i hybu darllen sy'n digwydd tu hwnt i'r stafell ddosbarth wedi lleihau yn sylweddol ers cyfnod y pandemig, yn enwedig yn y sector uwchradd.

## Argymhellion

**Dylai arweinwyr mewn ysgolion ystyried:**

- Cryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu amrywiaeth o fedrau darllen, gan gynnwys uwch-fedrau darllen, mewn pynciau ar draws y cwricwlwm yn ogystal â'r Gymraeg
- Defnyddio ystod eang o wybodaeth o amrywiaeth o weithgareddau hunanwerthuso i fonitro a gwerthuso medrau darllen disgyblion er mwyn adnabod yn glir pa agweddau o ddarllen sydd angen eu gwella neu'u cryfhau
- Cynllunio'n strategol a strwythuro cyfleoedd i gynyddu awydd, dygnwch a hyder disgyblion pan yn darllen yn y Gymraeg

**Dylai awdurdodau lleol ystyried:**

- Hwyluso trefniadau pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd a goresgyn unrhyw rwystrau i sicrhau bod ysgolion yn gallu cydweithio'n fuddiol i ddatblygu medrau darllen disgyblion

**Dylai Llywodraeth Cymru ystyried:**

- Creu cyfleoedd i awduron Cymraeg ymgysylltu ag ysgolion a siarad â disgyblion am y math o lyfrau yr hoffent eu darllen yn y Gymraeg
- Gweithio gyda phartneriaid fel 'Adnodd' i wella a chynyddu'r adnoddau darllen cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, gan gynnwys llyfrau ffeithiol

# Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad thematig hwn i ymateb i gais am gyngor gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn ei lythyr cylch gwaith i Estyn ar gyfer 2023-2024. Mae'r adroddiad yn disgrifio'r modd y mae ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn datblygu medrau darllen disgyblion yn y Gymraeg ar draws y cwricwlwm ym Mlwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd, ym Mlynyddoedd 7, 8 a 9 mewn ysgolion uwchradd ac o 10-14 mlwydd oed mewn ysgolion pob oed. Mae'n ystyried pa mor dda y mae medrau darllen disgyblion yn datblygu, y ddarpariaeth o fewn ysgolion ar gyfer datblygu darllen, a'r 'diwylliant o ddarllen' a ysgogir gan ysgolion.

Ystyriom beth sy'n digwydd yn ystod y cyfnod pontio o'r sector cynradd i'r sector uwchradd, a pha mor dda y mae ysgolion yn cynllunio ar gyfer parhad a dilyniant ym medrau darllen disgyblion o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Yn ogystal, fe wnaethom edrych ar y ddarpariaeth yn yr unedau trochi a chanolfannau iaith ar draws Cymru er mwyn gweld sut mae disgyblion sy'n trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg yn hwyr yn datblygu eu medrau darllen Cymraeg. Ar ben hyn, cynhaliwyd arolwg disgyblion yn Eisteddfod yr Urdd ym mis Mehefin 2023 ac fe ofynnom i'r disgyblion oedd yn y sampl i gwblhau holiadur gydag unarddeg o gwestiynau amrywiol am eu harferion darllen. Ymatebodd dros ddwy fil o ddisgyblion i'r holiadur hwn ac mae eu hymatebion wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â'n hadroddiad am ddatblygu medrau darllen Saesneg disgyblion 10 -14 oed a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023. Mae wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Gallai fod o ddiddordeb hefyd i rieni a phartneriaethau ar gyfer addysg gychwynnol athrawon. Mae'r adroddiad yn cynnwys cameos o arfer dda gan ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed ynghyd â deunyddiau atodol fydd o ddefnydd i ysgolion wrth hybu a chyfoethogi medrau darllen disgyblion. Y gobaith yw y bydd yr adroddiad yn cyfrannu at drafodaethau proffesiynol am sut gallwn ni wella medrau darllen disgyblion yn y Gymraeg ledled Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau â detholiad o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog cynradd, uwchradd a phob oed ledled Cymru. Yn ogystal, mae'n defnyddio gwybodaeth a gasglwyd o'n hymweliadau ymgysylltu ac o arolygiadau yn ystod 2023-24. Nid yw'n gwerthuso'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anawsterau darllen penodol na'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol dwys. Nid oedd gennym y capasiti yn ystod yr adolygiad thematig hwn i ymchwilio i'r agweddau pwysig hyn ar y ddarpariaeth.

## Cefndir

Mewn datganiad i'r Senedd ar 16eg Tachwedd 2021, amlinellodd Gweinidog Y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles, gynlluniau Llywodraeth Cymru i wella medrau llafaredd a darllen plant, gyda'r prif nod o leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a'u cyfoedion. Dywedodd y Gweinidog bod gwella medrau darllen yn flaenoriaeth bwysig i'r llywodraeth a chyhoeddodd becyn cymorth gwerth £5m ar gyfer darllen yn ysgolion Cymru, gyda phob dysgwr yn cael llyfr i'w gadw. Dywedodd y Gweinidog bod y llywodraeth a'i phartneriaid yn archwilio'r hyn y gellir ei wneud i gefnogi rhieni nad oes ganddynt y medrau, yr adnoddau na'r hyder i annog eu plant i ddarllen yn rheolaidd.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2022a) wedi cael ei gyflwyno ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd ers mis Medi 2023. Rhan greiddiol o'r cwricwlwm newydd yw'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlaRh) (Llywodraeth Cymru, 2022b) sy'n disodli'r fframwaith blaenorol a gyflwynwyd yn 2008 ac a wnaed yn statudol yn 2013. Er nad yw'r fframwaith newydd yn statudol, mae ar gael fel canllaw ategol. Mae elfen ddarllen y fframwaith newydd yn amlinellu safonau disgwyliedig ar bob cam dilyniant mewn tair agwedd eang ar fedrau darllen: ymwybyddiaeth ffonolegol a ffonemeg; strategaethau darllen; dealltwriaeth, ymateb a dadansoddi. Mae canllawiau ac awgrymiadau ar sut i ddatblygu medrau darllen o fewn pob Maes Dysgu a Phrofiad.

Rydym fel corfforaeth wedi rhoi ffocws mawr ar ddarllen yn ein hamrywiol adroddiadau. Nododd adroddiad blynyddol (2022/23) (Estyn, 2024) y Prif Arolygydd bod safonau darllen yn dda mewn llawer o ysgolion cynradd. Roedd llawer o ysgolion cynradd yn defnyddio strategaethau wedi’u seilio ar dystiolaeth i wella medrau darllen disgyblion. Yn yr achosion mwyaf llwyddiannus, cymhwyswyd yr ymagweddau hyn gan athrawon yn gyson a chawsant eu hategu gan ddysgu proffesiynol effeithiol i staff. Erbyn Blwyddyn 6, roedd llawer o ddisgyblion yn darllen â rhuglder priodol ac roedd y mwyafrif ohonynt yn crynhoi ac yn gwerthuso testunau a oedd yn cynnig her addas.

O fewn yr ysgolion uwchradd, roedd llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau darllen sylfaenol cadarn a gallent leoli ffeithiau a chyflwyno gwybodaeth yn llwyddiannus. Dim ond ychydig iawn ohonynt oedd yn cael trafferthion gyda medrau darllen sylfaenol. Roedd ychydig o ddisgyblion yn defnyddio technegau mwy datblygedig yn hyderus, fel cyfosod. Nodwyd nad oedd y lleiafrif o ddisgyblion yn gallu dadansoddi na gwerthuso testunau’n hyderus mewn gwersi tu hwnt i rai Cymraeg a Saesneg. Ym mwyafrif yr ysgolion, nid oedd disgyblion yn cael cyfleoedd digon ystyrlon i ddatblygu’r medrau hyn ar draws y cwricwlwm.

Yn ein hysgolion pob oed, roedd llawer o ddisgyblion, erbyn cyrraedd Blwyddyn 6, yn darllen yn hyderus ac yn rhugl o ystod addas o destunau, gan ddefnyddio goslef yn dda. Roedd disgyblion o oed uwchradd, i raddau amrywiol, yn dadansoddi testunau ac yn defnyddio rhesymiad a dod i gasgliad, yn ogystal â nodi safbwyntiau gwahanol. Fodd bynnag, nid oedd uwch fedrau darllen disgyblion wedi’u datblygu cystal. Yn

aml, roedd hyn yn gysylltiedig â diffyg cyfleoedd pwrpasol i ddarllen mewn gwersi, heblaw gwersi iaith.

Mae'r adroddiad blynyddol diweddaraf yn egluro bod effaith negyddol pandemig Covid-19 yn parhau ar fedrau llythrennedd disgyblion a bod ysgolion yn parhau i ymateb i hyn drwy ganolbwyntio ar fedrau darllen disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r adroddiad Caffael yr iaith Gymraeg (Estyn, 2021) yn rhoi trosolwg o ba mor effeithiol y mae lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn addysgu a chefnogi caffael a datblygu medrau Cymraeg disgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed. Noda'r adroddiad bod llawer o ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 yn defnyddio ystod gynyddol o strategaethau i ddatblygu'u dealltwriaeth wrth ddarllen yn annibynnol, fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn datblygu ystod ddigon eang o uwch-fedrau darllen. Mewn darparwyr cyfrwng Cymraeg, nid yw mwyafrif y disgyblion yn trafod llyfrau a blodeugerddi a ysgrifennwyd yn y Gymraeg yn wreiddiol yn ddigon hyderus.

Yn gyffredinol, mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, mae mwynhad disgyblion o ddarllen yn lleihau yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol gynradd.

Mae'r adroddiad ar Addysg Drochi Cymraeg – Strategaethau a dulliau i gefnogi dysgwyr 3-11 mlwydd oed (Estyn, 2022) yn nodi bod llawer o ymarferwyr yn ysgogi diddordeb disgyblion ifanc trwy ddarllen straeon a rhoi mynediad iddynt at ystod o ddeunyddiau addas. Mae'r ymarferwyr hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddarllen testunau sy'n gynyddol heriol wrth iddynt fagu hyder yn ystod y cyfnod trochi cynnar. Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr sy'n cefnogi hwyrddyfodiaid yn cynllunio gweithgareddau buddiol iddynt ddatblygu eu medrau darllen.

Ym mis Tachwedd 2023 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen yn edrych ar batrymau cyrhaeddiad mewn darllen (Llywodraeth Cymru, 2023), gan ddefnyddio data ar lefel genedlaethol o'r asesiadau personol a wnaed o 2018-19 i 2022-23. Asesiadau ar-lein yw'r rhain sydd wedi'u cynllunio i helpu i gefnogi datblygiad medrau darllen. Cyflwynwyd yr asesiad ym mlwyddyn academaidd 2019-20, ond gan nad oedd digon o ddata ar gael ar gyfer y flwyddyn honno oherwydd y tarfu a achoswyd gan y pandemig, nid yw'n cael ei gynnwys yn y dadansoddiad. Mae'r asesiadau personol blynyddol yn orfodol i ddisgyblion ym Mlynyddoedd 2 i 9 mewn ysgolion. Mae'r asesiadau hyn yn rhoi gwybodaeth i ysgolion am fedrau darllen disgyblion unigol a'r cryfderau a'r meysydd ar gyfer gwella yn y medrau hyn. Mae'r asesiadau personol darllen Cymraeg yn canolbwyntio ar pa mor dda y mae disgyblion yn deall testun yn y Gymraeg ac a ydynt yn gallu llunio barn am yr hyn maen nhw'n ei ddarllen. Mae'r data yn dangos bod cyrhaeddiad cyfartalog disgyblion mewn darllen Cymraeg yn 2022-23 yn is nag yr oedd yn 2020-21, gydag 11 mis o gyrhaeddiad o wahaniaeth. O'i gymharu â'r canlyniadau ar gyfer darllen yn Saesneg, roedd cyrhaeddiad disgyblion mewn Darllen Saesneg yn 2022-23 yn is nag yr oedd yn 2020-21, sy'n cyfateb i gyrhaeddiad is o 4 mis.

Er mwyn mynd i'r afael â pha mor llwyddiannus mae disgyblion yn datblygu eu medrau darllen Cymraeg, penderfynom y byddai'r adroddiad hwn yn dilyn yr un trywydd â'r adroddiad am fedrau darllen Saesneg disgyblion: 'Datblygu medrau darllen Saesneg disgyblion o 10-14 mlwydd oed' (Estyn, 2023).

## Safonau ac agweddau at ddarllen

Yn dilyn trafodaethau gyda disgyblion yn ein hymweliadau thematig, mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd darllen i gefnogi eu dysgu a'u cyfleoedd bywyd yn y dyfodol. Maent yn deall bod darllen yn rhan bwysig o'u haddysg ac yn ei weld fel rhan annatod o waith a bywyd bob dydd. Er nad yw bron bob un disgybl yn mwynhau darllen, maent yn gweld gwerth datblygu eu medrau darllen. Yn gyffredinol, fe welwyd o'n hymweliadau bod effaith negyddol y pandemig yn parhau yn glir ar safonau darllen Cymraeg disgyblion yn gyffredinol. Mae lleiafrif wedi colli'r hyder i gyfathrebu a darllen yn y Gymraeg ac mae geirfa'r disgyblion yma, o ganlyniad, yn gyfyngedig.

### Medrau sylfaenol ac uwch-fedrau darllen

Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at fedrau 'sylfaenol' ac 'uwch-fedrau' darllen disgyblion. Gellir dod o hyd i ddiffiniadau o'r rhain yn yr eirfa.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd o'n hymweliadau ag ysgolion ynghyd â'n canfyddiadau o arolygiadau yn 2023-24 yn dangos bod gan lawer o ddisgyblion fedrau darllen sylfaenol cadarn. Pan yn cael y cyfle, mae llawer o ddisgyblion yn gallu dod o hyd neu leoli gwybodaeth a'i hadalw o destunau yn briodol. Maent yn llithr ddarllen yn llwyddiannus i ganfod prif negeseuon a gwybodaeth allweddol, gan anodi'r testun yn bwrpasol. Trwy gyfleoedd priodol, mae llawer o ddisgyblion yn darllen i ddeall yn llwyddiannus ac yn defnyddio strategaethau darllen sylfaenol i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol.

Pan fo cyfleoedd buddiol yn codi, mae mwyafrif y disgyblion ym Mlwyddyn 6 a lleiafrif disgyblion Blynyddoedd 7-9 yn datblygu eu huwch-fedrau darllen yn llwyddiannus. Maent yn cywain gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau yn gymwys ac yn dechrau cyfuno gwybodaeth. O ganlyniad, gallant ddod i gasgliadau synhwyrol wrth drafod pynciau cyfoes fel digartrefedd, gordewdra a chrefydd. Gall y disgyblion mwyaf galluog werthuso gwybodaeth o destunau yn effeithiol i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Maent yn craff ddarllen darnau estynedig er mwyn trafod a dadansoddi arddull. Mae'r disgyblion yma yn dehongli a dod i gasgliadau cywir am dôn a thuedd testunau cyferbyniol. Pan yn cael y cyfleoedd, mae mwyafrif y disgyblion yn hyderus wrth ddarllen o gyfryngau gwahanol fel delwedd neu graff. Maent yn gallu canfod negeseuon sydd ymhlyg yn y testunau yma'n gywir, gan ddadansoddi'r canfyddiadau yn rhesymegol a chlir. Er enghraifft, maent yn dadansoddi ffynonellau darluniadol o blant mewn diwydiant yn eu gwersi hanes yn effeithiol.

Mewn sesiynau iaith yn yr ysgol gynradd a gwersi Cymraeg yn yr uwchradd yn bennaf, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn elwa o ystod o gyfleoedd buddiol i ddatblygu'u medrau darllen sylfaenol ac uwch . Yn ogystal, mae disgyblion yn cael cyfleoedd cadarn i ddatblygu eu medrau darllen o fewn y dyniaethau. Fodd bynnag, fe ddengys ein canfyddiadau bod cyfran uwch o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn datblygu eu medrau darllen yn dda o gymharu â disgyblion Blynyddoedd 7-9. Yn gyffredinol, mae cyfran uchel o ysgolion cynradd yn darparu cyfleoedd rheolaidd â ffocws i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau darllen. Mae hyn yn llai cyffredin mewn

ysgolion uwchradd. Mae disgwyliadau athrawon a'r cymorth sy'n cael ei gynnig i ddatblygu medrau darllen disgyblion yn fwy amrywiol.  Ar y cyfan, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu huwch-fedrau darllen ar draws y cwricwlwm tu allan i wersi Cymraeg, yn gyfyng. Tueddu i ddefnyddio eu medrau adalw yn unig y gwna disgyblion Blynyddoedd 7-9 mewn pynciau heblaw'r Gymraeg a'r dyniaethau, a hynny trwy dasgau llenwi bylchau a darllen a deall sylfaenol iawn.

**Adnodd ar gyfer mathau gwahanol o fedrau sylfaenol ac uwch-fedrau darllen sydd angen i ddisgyblion eu datblygu a'u meistroli ar draws y cwricwlwm**



# DATBLYGU MEDRAU DARLLEN CYMRAEG DISGYBLION 10-14 OED

## Adnodd Medrau Darllen Sylfaenol neu Uwch

Gan ddibynnu ar natur/her y testun



### Llunio casgliadau a dod i gasgliad

Uwch

- Deall gwybodaeth neu safbwyntiau nad ydynt yn cael eu datgan yn eglur a dod i gasgliad
- Creu rhagdybiaethau yn seiliedig ar wybodaeth ac awgrymiadau o fewn y testun ac o wybodaeth gefndirol os yn berthnasol



### Darllen yn feirniadol

Uwch

- Asesu grym a dilysrwydd barn neu ddadl



### Darllen yn ddadansoddol

Uwch

- Ystyried a dadansoddi defnydd yr awdur o iaith



### Gwerthfawrogi a dadansoddi cynnwys ac arddull

Uwch

- Dadansoddi technegau ysgrifennu awduron
- Cydnabod medrau a chrefft yr ysgrifennwr wrth ddefnyddio syniadau, technegau ac effeithiau



### Darllen gydag ymwybyddiaeth

Uwch

- Ystyried a thrafod safbwynt yr ysgrifennwr yn hytrach nag ymddygiad neu safbwynt cymeriad mewn testun



### Gwerthuso testunau

Uwch

- Edrych ar ansawdd, effaith a dibynadwyedd darnau darllen



### Cywain gwybodaeth

Uwch

- Tynnu gwybodaeth ynghyd o gefndir y darn, syniadau, cysylltiadau, casgliadau a chrynodebau newydd a'u cywain/cyfuno i ddangos dealltwriaeth gyflawn a gwreiddiol o'r testun
- Wrth syntheseiddio/cywain, mae meddwl disgyblion yn newid ac yn esblygu wrth iddynt ddarllen testun



### Cymharu a chyferbynnu gwybodaeth

Uwch

- Chwilio am debygrwydd a gwahaniaethau rhwng dau ddarn darllen (neu fwy) o ran syniadau, cysyniadau, eitemau, lleoedd, ac ati.
- Mae cymharu yn chwilio am nodweddion tebyg neu gyffredin rhwng dau neu fwy o destunau, syniadau neu gysyniadau
- Mae cyferbynnu yn nodi a phwysleisio'r gwahaniaethau mewn dau neu fwy o destunau, syniadau neu gysyniadau

Gyda'n gilydd, fe allwn wneud gwahaniaeth. Mae'r adnodd yma yn adnabod y mathau gwahanol o fedrau sylfaenol ac uwch-fedrau darllen sydd angen i ddisgyblion eu datblygu a'u meistroli ar draws y cwricwlwm.

## Darllen ar goedd

Pan fo cyfleoedd yn codi, mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 6 a mwyafrif y disgyblion uwchradd yn darllen ar goedd yn hyderus a rhugl. Maent yn amrywio goslef eu llais yn effeithiol i gyd-fynd â gofynion y darnau darllen sydd dan sylw. Darllena'r disgyblion uwch eu gallu gydag arddeliad, gan lwyddo i gyfleu ystyr yn fedrus iawn. Mewn ychydig o ysgolion, mae disgyblion yn elwa o ddefnyddio amrywiol strategaethau i godi eu hyder wrth ddarllen ar goedd, yn ogystal â strategaethau defnyddiol i ddatblygu a chyfoethogi eu geirfa. O ganlyniad i hyn, mae'r disgyblion yn yr ysgolion hyn yn fwy parod i fentro ynganu a dweud geiriau anghyfarwydd ac i ddarllen ar goedd yn annibynnol. Fodd bynnag, fe welwyd fod lleiafrif o ddisgyblion ar draws yr ystod oedran yn cael trafferthion wrth ddarllen ar goedd ac yn mynegi eu hunain yn chwithig am nad ydynt yn deall ystyr na bwriad y darn. Mae dygnwch y disgyblion yma i ddyfalbarhau i ddarllen testunau hirach a mwy cymhleth yn wan.

Mae'n canfyddiadau yn dangos bod disgyblion yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn darllen ar goedd yn gyson a hynny mewn grwpiau darllen dan arweiniad neu weithgareddau darllen ar y cyd. Mae brwdfrydedd y disgyblion yma yn amlwg wrth iddynt ddarllen ar goedd ac mae'n cael cryn effaith ar eu mwynhad o ddarllen. Fodd bynnag, dim ond ychydig o ysgolion uwchradd sydd yn cynnig dulliau a chyfleoedd cyson i gefnogi disgyblion i ddarllen ar goedd ac felly maent yn colli cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu'r medr hwn. O ganlyniad, llai hyderus yw'r lleiafrif o ddisgyblion oed uwchradd o gymharu â disgyblion Blwyddyn 6 i ddarllen ar goedd.

Dyma rai strategaethau defnyddiol mae disgyblion yn elwa ohonynt ac yn gwella'u medrau o ddarllen ar goedd o ganlyniad.

**DATBLYGU MEDRAU DARLLEN CYMRAEG DISGYBLION 10-14 OED**

# Strategaethau Darllen ar goedd



## Darllen yn annibynnol

Disgyblion yn darllen ar eu pen eu hunain.




## Partner darllen / Darllen fel pâr

Pob disgybl yn gweithio gyda phartner a manteisio ar y cyfleoedd o fewn gwersi i ddarllen a thrafod gyda phartner. Mae un disgybl yn darllen yn uchel tra bod y disgybl  arall yn gwrando'n astud. Mae astudiaethau yn dangos bod gweithio gyda darllenydd cryf yn helpu disgyblion sy'n ei chael hi'n anodd i ddarllen.

## Darllen ar y cyd

Athrawon a disgyblion yn darllen yr un testun gyda'i gilydd. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddysgu sut

- i ynganu geiriau an odd
- hybu hyder
- cynyddu geirfa
- gwella rhuglder wrth ddarllen



Gyda'n gilydd, fe allwn wneud gwahaniaeth. Dyma rai strategaethau defnyddiol mae disgyblion yn elwa ohonynt ac yn gwella'u medrau o ddarllen ar goedd o ganlyniad.

DATBLYGU MEDRAU DARLLEN CYMRAEG DISGYBLION 10-14 OED

# Strategaethau Darllen ar goedd



## Trafodaethau dosbarth i ddilyn y darllen

Dechrau gyda thrafodaeth dosbarth i wirio dealltwriaeth a gwybodaeth disgyblion o'rhyn maen nhw wedi'i ddarllen. Gellir defynyddio sbardunau tebyg i'r isod:

- Holwch nhw
- Anogwch nhw i nodi'r pethau nad ydynt yn eu deall fel y gallwch egluro neu esbonio iddynt
- Gofynnwch gyfres o gwestiynau sy'n ysgogi'r meddwl a hyrwyddo trafodaeth ddosbarth
- Rhannwch y dosbarth yn grwpiau llai i hyrwyddo sgyrsiau estynedig ymhlith disgyblion.

## Darllen dan arweiniad / Darllen dwyochrog

Grwpiau o dri neu bedwar disgybl yn darllen darn ar y cyd ac yna cyd-weithio i ddod o hyd i ystyr mewn testun. Mae gan bob un rôl benodol a rhaid sgaffaldio'r dasg yn ofalus er mwyn i'r disgyblion wneud rhagfynegiadau, gofyn cwestiynau, egluro pwyntiau allweddol a chrynhoi yn llwyddiannus. Mae'n datblygu medrau darllen a meddwl yn feirniadol, yn ogystal â medrau gwyrando a siarad.



Gyda'n gilydd, fe allwn wneud gwahaniaeth. Dyma rai strategaethau defnyddiol mae disgyblion yn elwa ohonynt ac yn gwella'u medrau o ddarllen ar goedd o ganlyniad.

## Darpariaeth ac Arweinyddiaeth

### Profiadau dysgu ac addysgu

O'n hymweliadau thematig, mae ysgolion yn deall pwysigrwydd cryfhau medrau a datblygu hyder disgyblion i ddarllen yn rhugl a deallus, a hynny mewn awyrgylch bositif ac anogol. Mae bron pob ysgol gynradd a llawer o ysgolion uwchradd yn hyrwyddo pwysigrwydd datblygu medrau darllen disgyblion ar draws y cwricwlwm i staff a disgyblion. Mae llawer o ysgolion yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen sylfaenol, er mai dim ond y mwyafrif o ysgolion uwchradd sydd yn gwneud hyn ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh). Y tasgau mwyaf poblogaidd yw:

- darllen i ddeall
- casglu a lleoli gwybodaeth
- ymchwilio i wybodaeth
- anodi testunau
- nodi'r pwyntiau allweddol

Yn ogystal, mae datblygu geirfa disgyblion yn flaenoriaeth bwysig mewn llawer o ysgolion ac mae athrawon (yn enwedig ers y cyfnod clo) yn rhoi ffocws mawr ar atgyfnerthu ystod o eiriau cyffredinol a geirfa bynciol. Yn aml, mae rhestrau o eiriau allweddol neu bwnc penodol yn cael eu harddangos o amgylch muriau'r ystafell ddosbarth neu ar daflenni gwaith neu lyfrynnau disgyblion. Yn yr ysgolion gorau, mae athrawon yn tynnu sylw, ailadrodd ac egluro y geiriau hyn yn rheolaidd pan fyddant yn digwydd mewn testun, ac yn cael disgyblion i ymarfer eu defnyddio a'u cymhwyso mewn cyd-destunau ystyrlon. Er bod gan ddisgyblion yn y mwyafrif o ysgolion a ymwelwyd â nhw eiriaduron wrth law i'w cynorthwyo i ddatblygu eu geirfa, dim ond ychydig o athrawon oedd yn modelu'r broses o chwilio a chanfod gair er mwyn galluogi'r disgyblion i'w defnyddio'n hyderus ac annibynnol.

Er mwyn annog a chyfoethogi medrau darllen disgyblion, mae ychydig o ysgolion wedi creu deunyddiau gwreiddiol sy'n datblygu medrau darllen disgyblion law yn llaw â hybu diddordeb a dealltwriaeth o'u cymuned leol.

> Mae **Ysgol Gymraeg Llangennech** wedi datblygu uned o waith ar deulu'r Beasley's a'u pwysigrwydd yn yr ardal leol ac ar draws Cymru gyfan. Maent yn defnyddio nofel Angharad Tomos '*Darn Bach o Bapur'* fel sbardun ac yn cynllunio gweithgareddau darllen amrywiol sy'n sbarduno disgyblion i gyfoethogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o hanes lleol law yn llaw â'u medrau darllen.

Gorwedd y cyfleoedd mwyaf buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen, gan gynnwys eu huwch-fedrau darllen, mewn sesiynau iaith a gwersi Cymraeg yn benodol ac ar adegau o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y dyniaethau. Yn y sesiynau yma, mae athrawon yn:

- holi cwestiynu effeithiol i gadarnhau dealltwriaeth
- adalw dysgu blaenorol disgyblion a'u  hannog i feddwl yn ddyfnach
- cynllunio tasgau cydlynus
- defnyddio amrywiaeth o adnoddau atyniadol a buddiol i gefnogi'r dysgu
- holi cwestiynau miniog a threiddgar sy'n symbylu'r disgyblion i ymestyn eu dealltwriaeth a chyfiawnhau eu safbwyntiau
- herio'r disgyblion i chwilio a chanfod gwybodaeth yn annibynnol ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyson
- annog disgyblion i ddadansoddi a gwerthuso barnau
- gofyn cyfres o gwestiynau sy'n ysgogi'r meddwl a hyrwyddo trafodaeth ddosbarth
- rhannu'r dosbarth yn grwpiau llai i hyrwyddo sgyrsiau estynedig ymhlith disgyblion

O ganlyniad i'r uchod, gwelir effaith werthfawr yr addysgu ar fedrau darllen y disgyblion ac o fewn y sesiynau a'r llyfrau. Yn y gwersi mwyaf effeithiol, caiff disgyblion gyfleoedd cadarn i ymarfer a chryfhau eu medrau i:

- ddarllen yn ddadansoddol
- bwyso a mesur manteision a'r anfanteision o safbwyntiau gwahanol
- gymharu a chywain gwybodaeth
- werthuso testunau
- resymu a dod i gasgliadau personol

Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae cyfleoedd i ddatblygu uwch-fedrau darllen disgyblion ar draws y cwricwlwm ac yn benodol, tu allan i wersi Cymraeg yn gyfyng ac yn wan. Yn yr achosion hyn, nid yw'r cynllunio'n ddigon gofalus i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd yn eu medrau darllen ac mae diffyg her yn aml yn y tasgau. Er enghraifft, mae athrawon yn cynllunio llawer o dasgau syml fel darllen a deall ailadroddus a chaeedig, llenwi bylchau neu anodi, a chwisiau neu chwileiriau. Dyma dasgau sy'n cadw disgyblion yn brysur ac yn dawel, yn hytrach na thasgau sydd yn gwella'u dealltwriaeth a'u medrau. Yn ogystal, er bod athrawon yn annog disgyblion i ddefnyddio'r We wrth gwblhau gwaith ymchwil annibynnol ar bwnc neu thema, mae gorddibyniaeth ar beiriant chwilio penodol o'r We i ddod o hyd i'r wybodaeth yma. Dydy'r disgyblion, o ganlyniad, ddim yn cael eu cyfeirio'n ddigon aml at ffynonellau darllen o wefannau, llyfrau neu erthyglau cyfrwng Cymraeg.

## Arweinyddiaeth a chynllunio ar gyfer gwella

Mae datblygu medrau darllen disgyblion bron bob amser yn flaenoriaeth o fewn cynlluniau gwella ysgolion. Lle bo arweinyddiaeth ar ei orau, mae arweinwyr yn adnabod y cryfderau o ran darllen ar draws yr ysgol ynghyd â'r nodweddion sydd angen eu gwella ac mae hyn yn glir yng nghynlluniau datblygu'r ysgolion. Trwy weithgareddau hunanwerthuso, maent yn gweld yr angen a'r pwysigrwydd i flaenoriaethu darllen. Maent yn defnyddio ystod o brofion sylfaenol, gwybodaeth a gasglwyd gan staff addysgu, a gwybodaeth bontio i adnabod y disgyblion hynny sydd angen cymorth gyda'u medrau sylfaenol. Yn yr ysgolion gorau, mae'r rhaglen ddatblygiad proffesiynol ar gyfer y staff yn dangos cydweithio llwyddiannus ar draws yr ystod oedran i alluogi bod gwybodaeth yn cael ei rhaeadru'n effeithiol a'i defnyddio'n llwyddiannus ar lawr y dosbarth. Mae'r arweinwyr yma yn gwerthuso

ansawdd ac effaith y ddarpariaeth yn barhaus ac yn gwneud newidiadau addas, lle bo'n briodol.

Mae'r mwyafrif o ysgolion yn defnyddio data o brofion darllen cydnabyddedig, gan gynnwys y profion darllen cenedlaethol neu ddata lefel eitem, i gynllunio ymyraethau defnyddiol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig ymyraethau priodol lle bo angen. Mae'r ysgolion mwyaf effeithiol yn teilwra'r ymyraethau'n ofalus yn ôl eu hadnabyddiaeth o'r meysydd o fewn y darllen sydd angen sylw. Maent wedyn yn monitro cynnydd disgyblion a gwerthuso'r ddarpariaeth yn ofalus, gan fireinio lle bo angen i ddisgyblion sydd angen cymorth gyda'u medrau darllen. Fodd bynnag, nid yw'r lleiafrif o ysgolion yn teilwra'r ymyraethau darllen yn ddigon effeithiol i gwrdd ag anghenion unigol y disgybl.

Mae **Ysgol Gymraeg Llangennech** yn myfyrio ar a gwerthuso yr addysgu a'r cwricwlwm yn ofalus. Mae arweinwyr yn defnyddio'r holl wybodaeth maent yn ei gasglu yn gelfydd i adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd ar gyfer gwella o ran darllen. Er enghraifft, maent yn dadansoddi data darllen yn fanwl iawn ac yn defnyddio'r canfyddiadau i gynllunio gwelliannau i'r ddarpariaeth a theilwra ymyraethau i gyd-fynd ag anghenion y disgyblion. Mae arweinwyr yn barod i newid ac addasu lle bo angen fel bod y gwaith yn helpu codi safonau darllen y disgyblion. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae'r ysgol yn adnabod ei disgyblion yn dda iawn ac yn gallu'u cynorthwyo'n fedrus a synhwyrol lle bo'n briodol. Mae 'Sesiynau sgleinio' yn cael effaith gadarnhaol ar hyder disgyblion wrth ddarllen a thrafod yn y Gymraeg.

Nododd y rhan fwyaf o ysgolion cynradd a thua hanner yr ysgolion uwchradd yn y sampl eu bod wedi buddsoddi mewn o leiaf un cynllun neu lwyfan darllen cyhoeddedig ond mai prin oedd yr arlwy cyfrwng Cymraeg. Ar ben hyn, cynlluniau ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd yn bennaf yw'r cynlluniau neu lwyfannau darllen yma. Pan yn eu defnyddio, mae mwyafrif yr ysgolion cynradd ac ychydig iawn o ysgolion uwchradd yn monitro'r broses o weithredu a gwerthuso effaith eu cynllun neu lwyfan darllen dewisol i gadw golwg ar gynnydd darllen disgyblion.

Mae'n canfyddiadau o'r ymweliadau a'n hadroddiadau arolygu diweddar yn dangos nad oes gan y lleiafrif o ysgolion cynradd a'r mwyafrif o ysgolion uwchradd a phob oed, ddarlun digon clir a miniog o'r hyn sydd angen ei wneud i gryfhau medrau darllen disgyblion. Er bod gweithgareddau sicrhau ansawdd yn galluogi arweinwyr i gasglu tystiolaeth werthfawr, nid ydynt yn gwerthuso safonau darllen disgyblion yn ddigon trylwyr na manwl yn ystod arsylwadau gwersi neu graffu ar lyfrau. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu o fewn cynlluniau datblygu'r ysgolion gyda'r agwedd ar gryfhau medrau darllen disgyblion yn aml yn aneglur a gwan, yn enwedig yn yr ysgolion uwchradd. Yn aml, mae datblygu medrau darllen disgyblion yn gorwedd o fewn y strategaethau cyffredinol i wella llythrennedd disgyblion. Nid yw'r camau gweithredu bob amser yn ddigon penodol i alluogi arweinwyr na staff i gyflwyno gwelliannau. Mae tueddiad hefyd i'r camau gweithredu fod yn gwbl seiliedig ar ddeilliannau a phrofion yn hytrach nag ystod mwy eang o dystiolaeth. Nid ydynt yn ystyried ddigon y canfyddiadau a ddaw yn sgil yr amrywiol weithgareddau hunanwerthuso, yn arbennig wrth graffu ar waith ac arsylwi'r dysgu ac addysgu. Nid ydynt chwaith yn gwerthuso'n

ddigon manwl effaith eu gwaith i wella medrau darllen disgyblion, gan gynnwys y rhaglen ddysgu proffesiynol berthnasol.

## Adnodd i helpu adnabod darllen fel blaenoriaeth ysgol gyfan

### DATBLYGU MEDRAU DARLLEN CYMRAEG DISGYBLION 10-14 OED

## Adnodd i helpu wrth hunanwerthuso



**Ystyriwch y dystiolaeth o ystod o ffynonellau sydd yn cynnwys:**

- Arsylwadau gwersi
- Teithiau dysgu
- Craffu ar waith
- Llais y disgybl
- Sgwrs broffesiynol gydag arweinwyr
- Dadansoddiad o ddata perthnasol (profion cenedlaethol/data lefel eitem)

**Trwy'r prosesau hunanwerthuso uchod - arfarnwch pa mor dda mae disgyblion yn:**

- Darllen ar goedd
- Lleoli ffeithiau
- Anodi testun
- Llenwi bylchau
- Sgimio a sganio
- Darllen i ddeall
- Ymchwilio ystod o ffynonellau
- Defnyddio strategaethau adalw gwybodaeth
- Rhesymu a dod i gasgliadau
- Darllen yn feirniadol
- Darllen yn ddadansoddol
- Gwerthfawrogi a dadansoddi cynnwys ac arddull
- Darllen gydag ymwybyddiaeth
- Cymharu a chyferbynnu gwybodaeth
- Cywain gwybodaeth
- Gwerthuso testunau

Gyda'n gilydd, fe allwn wneud gwahaniaeth. Dyma adnodd i helpu adnabod darllen fel blaenoriaeth ysgol gyfan.

## DATBLYGU MEDRAU DARLLEN CYMRAEG DISGYBLION 10-14 OED

# Adnodd i helpu wrth hunanwerthuso



**Yn ystod y gweithgareddau yma – gofynnwch y cwestiynau:**

- Beth yw'r cryfderau o ran medrau darllen?
- Pa fedrau darllen sydd angen eu datblygu?
- Beth yw ansawdd a her y deunyddiau darllen sydd ar gael yn barod?
- Ble mae cyfleoedd yn cael eu colli?
- Ble mae'r arfer orau i'w rannu?
- Pa hyfforddiant sydd ei angen ac ar bwy?

↓

ShapeCefnogwch athrawon i ddiffinio a chynllunio cyfleoedd i ddatblygu medrau darllen effeithiol a gwerthfawr o fewn eu gwersi

↓

Lluniwch eich blaenoriaeth ysgol gyfan yn seiliedig ar eich canfyddiadau, gan sicrhau ei bod yn glir, yn berthnasol ac yn finiog

↓

Gwerthuso effaith y camau gweithredu er mwyn sicrhau gwelliannau

Gyda'n gilydd, fe allwn wneud gwahaniaeth. Dyma adnodd i helpu adnabod darllen fel blaenoriaeth ysgol gyfan.

## Rôl y Cydlynydd Llythrennedd

Dengys ein canfyddiadau fod y mwyafrif o gydlynwyr llythrennedd yn cydweithio'n briodol gydag adrannau ac athrawon eraill i adnabod cyfleoedd pwrpasol i gynllunio a datblygu medrau darllen ar draws yr ysgol. Mae lleiafrif o gydlynwyr yn gweithio'n effeithiol gydag uwch-arweinwyr er mwyn adnabod cryfderau a'r elfennau o ddarllen sydd angen eu gwella. Mae'r cydlynwyr yma'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hunanwerthuso ac yn defnyddio canfyddiadau o brofion cydnabyddedig yn effeithiol er mwyn caffael darlun cadarn o'r sefyllfa. Yn sgil hyn, maent yn cydweithio gyda'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) ac arweinydd y Gymraeg er mwyn cynllunio ymyraethau addas i sicrhau bod disgyblion yn derbyn cefnogaeth berthnasol a phwrpasol. Mae ychydig yn darparu hyfforddiant gwerthfawr i staff i sicrhau bod cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i ddatblygu medrau darllen disgyblion law yn llaw â chyfoethogi eu dealltwriaeth o bynciau. Ar ben hyn, maent yn gwerthuso'r ddarpariaeth yn gyson ac yn addasu lle bo angen.

Mae **Ysgol Dyffryn Ogwen** yn blaenoriaethu datblygu darllen ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'n flaenoriaeth unigol glir yng nghynllun gwella'r ysgol ac mae tîm o arweinwyr yn cwrdd yn gyson i gynnal momentwm y gwaith. Mae gwefan fewnol yr ysgol yn rhannu arfer dda trwy ddangos enghreifftiau o waith darllen, yn rhoi hyfforddiant darllen i staff ac yn cadw cofnod o'r holl lyfrau sydd yn yr ysgol. Mae'r bwrlwm ymysg staff a disgyblion yn hyrwyddo pwysigrwydd a gwerth darllen ac mae strategaethau i gyfoethogi medrau darllen disgyblion wedi eu gwreiddio ar draws y cwricwlwm.

Dechrau datblygu mae'r gwaith o gydlynu darllen yn y mwyafrif o ysgolion uwchradd ers y cyfnod clo. Yn gyffredinol, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion wedi'i chynllunio'n ddigon cydlynus ar draws y cwricwlwm er mwyn sicrhau cynnydd priodol yn y dysgu. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael cyfleoedd digon ystyrlon i ddatblygu'u medrau darllen ar draws y cwricwlwm. Mae ein canfyddiadau o'r ymweliadau thematig ac adroddiadau arolygiadau yn dangos nad yw arweinyddiaeth strategol ar gyfer datblygu'r medrau yn ddigon llwyddiannus. Er enghraifft, mewn ychydig o achosion, nid yw cydlynwyr yn cael digon o amser i gwblhau eu rolau'n effeithiol neu nid ydynt yn cymryd rhan lawn yng ngweithgareddau hunanwerthuso'r ysgol. O ganlyniad, mae hyn yn eu rhwystro rhag canfod y darlun llawn a mynd i'r afael â'r hyn sydd angen gwella.

**Adnodd yn nodi agweddau effeithiol rôl y cydlynydd llythrennedd i ddatblygu medrau darllen disgyblion**

## DATBLYGU MEDRAU DARLLEN CYMRAEG DISGYBLION 10-14 OED

# Adnodd ar gyfer Cydlynydd Llythrennedd



- Cymryd rhan flaenllaw mewn prosesau hunanwerthuso er mwyn adnabod cryfderau o fewn y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen a'r meysydd sydd angen eu gwella
- Clustnodi'r cyfleoedd sydd yn bodoli'n barod i ddatblygu darllen a'u cymhwyso mewn pynciau ar draws y cwricwlwm
- Adnabod y cyfleoedd sy'n cael eu colli o fewn rhai pynciau neu feysydd a gweithio gyda'r athrawon hynny i gryfhau eu darpariaeth
- Dadansoddi data o ffynonellau amrywiol er mwyn adnabod y meysydd o fewn darllen sydd angen eu cryfhau a'r disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol

- Darparu ymyraethau priodol wedi'u teilwra'n ofalus i gyd-fynd ag anghenion disgyblion
- Darparu hyfforddiant penodol a phriodol i gyd-fynd ag anghenion pob adran/maes dysgu
- Hybu a meithrin diwylliant o ddarllen sy'n cynnig profiadau gwerthfawr i ddisgyblion ar draws yr ysgol
- Gwerthuso'r ddarpariaeth ar gyfer darllen yn gyson i sicrhau bod disgyblion yn elwa o'r cyfleoedd i gryfhau eu medrau darllen



Gyda'n gilydd, fe allwn wneud gwahaniaeth. Dyma adnodd yn nodi agweddau effeithiol rôl y cydlynydd llythrennedd i ddatblygu medrau darllen disgyblion.

## Cynlluniau trosglwyddo

Ar y cyfan, mae cynlluniau trosglwyddo cyffredinol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael eu trefnu a'u strwythuro'n ofalus. Maent yn cwrdd fel clystyrau yn dymhorol ac yn hyrwyddo datblygiad lles yn effeithiol.

Fel rhan o'r broses pontio o'r cynradd i'r uwchradd, mae bron pob ysgol gynradd yn trosglwyddo canlyniadau disgyblion Blwyddyn 6 o brofion darllen safonol i'r ysgolion uwchradd. Mewn llawer o glystyrau, ategir y wybodaeth hon gan fwy o fanylion am gynnydd disgyblion mewn cyfarfodydd ffurfiol rhwng athrawon Blwyddyn 6 a chydlynwyr pontio ysgolion uwchradd, er mai'r prif ffocws fel arfer yw disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Prin yw'r ysgolion sy'n cynllunio ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion o Flwyddyn 6 i 7. Un rhwystr dros hyn yw ehangder y clwstwr a bod nifer o ysgolion cynradd o fewn dalgylch mwy nag un ysgol uwchradd neu, ar adegau yn draws-sirol.

Mae ein canfyddiadau'n awgrymu bod lleiafrif o ysgolion uwchradd yn gwneud defnydd cyfyngedig o ganlyniadau profion darllen o ysgolion cynradd ac yn cynnal ystod o brofion sylfaenol ar ddisgyblion sy'n symud o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Mae arweinwyr yn dweud eu bod yn defnyddio profion sydd yr un peth i bob disgybl er mwyn cael ystod eang o wybodaeth am fedrau llythrennedd bob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd yn dod o ysgolion tu allan i ddalgylch yr ysgol neu'n draws-sirol.

## Cyfathrebu gyda rhieni

O'n hymweliadau thematig, mae'r mwyafrif o ysgolion yn cyfathrebu gyda rhieni am bwysigrwydd darllen. Maent yn rhannu deunyddiau defnyddiol ac ymarferol gyda rhieni er mwyn iddynt allu helpu eu plant i wella eu medrau darllen. Mae'r ysgolion gorau hefyd yn cynnig cymorth ychwanegol a darparu adnoddau i oresgyn unrhyw rwystrau ieithyddol a sicrhau bod disgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn gallu derbyn yr un cymorth â disgyblion o aelwydydd Cymraeg.

Mae **Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin** yn rhoi pwysigrwydd mawr ar weithio gyda rhieni a'r gymuned leol i godi hyder disgyblion i ddarllen trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ysgol yn agor ei drysau i rieni ganfod a holi am wybodaeth a strategaethau lle gallant helpu eu plant i ddatblygu fel darllenwyr Cymraeg hyderus. Ar wefan yr ysgol ceir cyfres o adnoddau i rieni allu helpu eu plant i wella eu medrau darllen. Mae'n cynnwys clipiau fideo a dolenni cyswllt cyfoes ac ysgogol i rieni allu helpu a chynnig cymorth i'w plant ddatblygu eu medrau darllen. Yn ogystal, trefna'r ysgol nosweithiau agored penodol ar gyfer rhieni ar draws y blynyddoedd ysgol ac yma mae staff yn cyflwyno gweithdai defnyddiol ar hybu darllen. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ymwybyddiaeth rhieni o ddisgwyliadau'r ysgol o ran datblygiad darllen pob unigolyn. Teimla'r ysgol a'r rhieni bod hyn yn ffordd dda o godi hyder y disgyblion a'r rhieni wrth ddarllen yn y Gymraeg. Mae'r rhieni yn cael bod yn rhan o siwrnai ddarllen eu plentyn ar y cyd â'r ysgol ac yn gallu sicrhau bod y disgyblion yn elwa cymaint â phosib o'r profiad a'r mwynhad o ddarllen.

## Unedau trochi a chanolfannau iaith

Mae staff o fewn yr unedau trochi a'r canolfannau iaith yr ymwelwyd â nhw, yn datblygu medrau Cymraeg disgyblion sy'n trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg yn hwyr yn effeithiol. Yn fuan iawn, mae'r disgyblion hyn yn datblygu'n siaradwyr rhugl yn yr iaith sydd yn medru astudio'r holl gwricwlwm trwy'r Gymraeg.

Mae uned drochi **Ysgol Glan Clwyd** yn cynorthwyo disgyblion sy'n trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg yn hwyr iawn i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae'r disgyblion yma yn derbyn cefnogaeth ac anogaeth werthfawr i sicrhau eu bod yn elwa'n llawn o gwricwlwm a bywyd yr ysgol ac yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg rhugl. Maent yn datblygu'n siaradwyr hyderus, yn ddarllenwyr rhugl ac yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig estynedig sy'n eu galluogi i ymuno â'r prif lif yn gynnar yn eu bywyd ysgol.

Mae'r bwrlwm, yr anogaeth a'r adnoddau o fewn yr unedau a ymwelwyd â nhw yn gryf ac mae'r strategaethau darllen a ddefnyddir wedi'u teilwra'n ofalus i sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad llawn i gwricwlwm cyfrwng Cymraeg.

Mae **Unedau Trochi Gwynedd** (gydag un wedi ei lleoli ar **safle Ysgol Bro Idris)** yn gwneud defnydd effeithiol o ddarllen fel un o'r prif strategaethau trochi er mwyn dysgu ar gof a modelu patrymau iaith. Mae'r defnydd o ddarllen yn hanfodol o fewn yr unedau iaith ac yn y strwythurau trochi a ddefnyddir. Mae patrymau a geirfa yn weledol a defnyddir darllen fel sail i waith ystum ac actio fel rhan ganolog o drochi. Mae'r athrawon yn modelu iaith bob dydd trwy ddefnydd o ddeialogau ailadroddus sy'n galluogi disgyblion i adnabod patrymau a strwythurau brawddeg. Trwy ddarllen a dysgu deialogau ar eu cof, mae'r disgyblion yn profi llwyddiant trwy allu perfformio'r ddeialog, sy'n cynyddu hyder a balchder.

## Diwylliant o ddarllen

Yn ystod ein hymweliadau, gwelwyd bod llawer o ysgolion cynradd ac ychydig o ysgolion uwchradd yn gweithio'n ddiwyd i ddatblygu diwylliant o ddarllen. Maent yn hyrwyddo ethos o fwynhad mewn darllen ar draws yr ysgol trwy gyflwyno amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau gwerthfawr i ddisgyblion. Er enghraifft, mae cyfleoedd i fwynhau sesiynau darllen o dan arweiniad, yn ogystal a chyfleoedd buddiol a mannau ysgogol a difyr lle gall disgyblion ddatblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol. Mae barnau disgyblion yn chwarae rhan bwysig wrth lywio'r gweithgareddau yma ac mae'r ysgolion yma yn gwrando ar y disgyblion ac yn addasu'r gweithgareddau er mwyn hybu diwylliant o ddarllen. Ar ben hyn, mae arweinwyr o fewn yr ysgolion yma yn cydnabod pwysigrwydd darllen ac mae'n un o'u hamcanion yn eu cynlluniau datblygu.

### Amgylchedd ddysgu

Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, mae'r amgylchedd ddysgu'n cynnwys mannau ysgogol a difyr lle gall pob grŵp o ddisgyblion gael mynediad at lyfrau darllen a lleoedd cyfforddus i'w mwynhau. Ceir ardaloedd darllen deniadol a phwrpasol sydd yn hybu darllen fel gweithgaredd pleserus. Mae tua hanner yr ysgolion uwchradd wedi cadw a diweddaru eu llyfrgelloedd i gynnwys amrywiaeth o ddeunydd darllen papur a digidol. Lle mae darpariaeth llyfrgell ysgolion ar ei fwyaf effeithiol, mae'r lle yn groesawgar, yn cynnwys storfa dda ac amrywiol, yn cael ei oruchwylio ac yn cael ei ddefnyddio gan amrywiaeth o ddosbarthiadau a phynciau yn ddyddiol. Mae'n gartref hefyd i glybiau gwaith cartref ac yn hafan i ddisgyblion adeg egwyl a chinio i ddarllen ac astudio.

Sefydlwyd *Y Pen Dwfn*, sef llyfrgell **Ysgol Syr Henry Richard** ar ddechrau 2022. Enwyd y Pen Dwfn gan ddisgybl, gan bod y llyfrgell yn sefyll yn hen safle'r pen dwfn yn yr hen bwll nofio, a dyluniwyd y logo gan ddisgybl hefyd. Mae'n drosiad o'r dyfnder a'r rhyddid sydd i'w gael mewn cael blas ar lyfr da ac o lyfrgell da hefyd. Gwnaeth 'swyddogion y llyfrgell' sef disgyblion yr ysgol, gais am lyfrau a chyfraniadau oddi wrth y cyhoedd ac fe fu'n llwyddiant mawr. Mae'r swyddogion yma yn gweithio gydag arbenigwyr o Lyfrgelloedd Ceredigion er mwyn trefnu a chategoreiddio'r llyfrau. Mae'r swyddogion yma'n parhau i ddatblygu'r ardal er mwyn hyrwyddo darllen er pleser a diwylliant darllen positif.

Yn ystod ein hymweliadau, roedd nifer o ysgolion uwchradd yn benodol wedi gorfod addasu eu llyfrgelloedd yn ystafelloedd dosbarth oherwydd prinder lle. Roedd eraill wedi cau eu llyfrgell oherwydd diffygion yn y cyllid i allu prynu a diweddaru eu storfa o ddeunyddiau ac ariannu staff addas i ofalu am yr adnodd.

### Barnau disgyblion


Fel rhan o'r adroddiad thematig hwn, fe ofynnom i'r disgyblion oedd yn y sampl i gwblhau holiadur am eu harferion darllen. Ymatebodd dros ddwy fil o ddisgyblion i'r

holiadur hwn. Gwnaethom hefyd gynnal cyfarfodydd gyda grwpiau o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6-9 yn ystod ein hymweliadau. Dyma grynodeb o ganfyddiadau'r holiadur.

Yn gyffredinol, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn dangos y brwdfrydedd mwyaf at ddarllen ac yn gwerthfawrogi'r ystod ddiddorol o destunau darllen, o ran llyfrau ac adnoddau digidol, sydd ar gael iddynt yn y Gymraeg. Mae'r brwdfrydedd dros ddarllen yn gostwng ymhlith y disgyblion hŷn gyda dros hanner y disgyblion a holwyd yn colli diddordeb mewn darllen yn gyffredinol.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos adnabyddiaeth briodol o awduron Cymraeg. Eto, maent yn fwy cyfarwydd ag awduron Saesneg gan eu bod yn darllen fersiynau o'u gwaith sydd wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg, gan amlaf. Ymysg y disgyblion oed uwchradd, roedd y rhan fwyaf o'r farn nad oedd digon o arlwy o lyfrau Cymraeg ar gael o gymharu â'r Saesneg, yn enwedig llyfrau ffeithiol. Cymysg oedd teimladau disgyblion ynghylch y cyfieithiadau o lyfrau Saesneg. Teimlai tua hanner y disgyblion bod cyfieithiadau o rai o'r prif nofelau Saesneg yn anodd i'w darllen, bod llif a dychymyg y stori yn cael eu colli mewn cyfieithiad a bod yr eirfa hefyd yn ddieithr ac anghyfarwydd. Ar y llaw arall, anghytunai hanner y disgyblion gan nodi eu bod yn mwynhau y cyfieithiadau am eu bod yn gyfarwydd â'r stori yn Saesneg ac felly'n fwy parod i'w darllen yn y Gymraeg. Yn gyffredinol, roedd yn well gan y rhan fwyaf o ddisgyblion cynradd ac uwchradd ddarllen llyfrau Saesneg. Y prif resymau dros hyn oedd yr eirfa a'r dafodiaith ddieithr a'r prinder dewis o bynciau diddorol yn y Gymraeg.

**Dadansoddiad *o ymatebion i'r arolwg: Cyfran y disgyblion a ymatebodd i'r cwestiwn 'Pa mor aml ydych chi'n darllen llyfrau Cymraeg yn annibynnol?'***



Dyma rai o'r sylwadau a wnaed gan y disgyblion yn yr holiadur ac yn ein trafodaethau yn yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy.

## DATBLYGU MEDRAU DARLLEN CYMRAEG DISGYBLION 10-14 OED

# Ymatebion disgyblion am fedrau darllen

Dyma rai o'r sylwadau a wnaed gan y disgyblion yn yr holiadur ac yn ein trafodaethau yn yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy.



**"Mae angen mwy o lyfrau ffeithiol yn y Gymraeg!"**



**"Byddai gwefan yn cynnwys yr holl lyfrau Cymraeg fesul oedran mor ddefnyddiol."**



**"Does dim digo o lyfrau i apelio at Flwyddyn 8 a 9 yn y Gymraeg!"**



**"Pam nad yw awduron Cymraeg yn ymweld â ni yn yr ysgol?"**



**"Pam nad yw awduron Cymru yn cael yr un cyhoeddurwydd ag awduron Saesneg?"**




**"Pam bod llyfrau Cymraeg mewn un cornel fach o'n llyfrgelloedd?"**

Nododd y rhan fwyaf o ddisgyblion eu bod yn datblygu eu medrau darllen mewn pynciau ar draws y cwricwlwm, yn bennaf yn y dyniaethau. Nododd llawer mai tasgau ymchwilio a lleoli ffeithiau oedd yn cael eu cwblhau fwyaf yn y pynciau tu allan i'r Gymraeg.

Nododd y rhan fwyaf o ddisgyblion eu bod yn datblygu eu medrau darllen mewn pynciau ar draws y cwricwlwm, yn bennaf yn y dyniaethau. Nododd llawer mai tasgau ymchwilio a lleoli ffeithiau oedd yn cael eu cwblhau fwyaf yn y pynciau tu allan i'r Gymraeg.

*Dadansoddiad o ymatebion i'r arolwg: Cyfran y disgyblion a ymatebodd i'r cwestiwn 'Pa fath o dasgau ydych chi'n eu gwneud gyda'r deunydd darllen?*




Dengys ein canfyddiadau o'n hymweliadau bod llawer o ysgolion yn prynu a defnyddio adnoddau darllen digidol er mwyn hybu'r mwynhad o ddarllen a sicrhau mynediad llawn a chyfartal i bob disgybl wella eu medrau darllen o fewn yr ysgol a'r cartref. Eto, yn ddieithriad, roedd yn well gan bron bob un disgybl ddarllen er pleser o lyfr clawr caled neu bapur na darllen o ddyfais ddigidol. Teimla'r rhan fwyaf nad oeddent yn canolbwyntio cystal wrth ddarllen o ddyfais ddigidol ac nad oeddent yn ymgolli mor rhwydd yn llif y stori.

## Gweithgareddau i hybu diwylliant o ddarllen

Yn ôl ein canfyddiadau, mae llawer o ysgolion cynradd yn adnabod yr angen i greu gweithgareddau ystyrlon, amrywiol a dychmygus ynghyd â defnyddio strategaethau pwrpasol i arfogi'r disgyblion i fod yn ddarllenwyr rhugl.

Crëwyd Cofnod Darllen Cymraeg a Saesneg newydd yn **Ysgol Syr Henry Richard** er mwyn ail-lawnsio ymgyrch hybu darllen. Mae'r Cofnod Darllen, y 'Silff Lyfrau' yn fwy apelgar, yn fwy hygyrch ac yn fwy deniadol. Mae'r 'Silff Lyfrau' yno er mwyn casglu bob llyfr mae'r disgyblion wedi darllen dros y flwyddyn er mwyn rhoi pwrpas a nod i'r darllen a datblygu'r ymdeimlad o berchnogaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd a'r mwyafrif o'r sector uwchradd yn defnyddio rhai sesiynau boreol neu sesiynau tiwtor i hybu gweithgarwch darllen. Mae lleiafrif o ysgolion uwchradd yn strwythuro'r staffio yn ofalus er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfle i gymryd rhan fuddiol mewn gweithgaredd ddarllen bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o ysgolion uwchradd yn monitro gwerth y sesiynau darllen hyn yn ddigon effeithiol. Er bod bocsys o lyfrau a deunyddiau darllen mewn dosbarthiadau, nid ydynt yn monitro datblygiad darllen y disgyblion a cheir diffyg

cysondeb gan athrawon wrth gyflwyno'r weithgaredd. Anodd wedyn yw mesur gwerth ac effaith sesiynau o'r fath.

Mae tystiolaeth o arolygiadau ac ymweliadau thematig yn awgrymu bod llawer o ysgolion cynradd a lleiafrif o ysgolion uwchradd yn cynnig profiadau niferus i'r disgyblion i'w hannog i ddarllen y tu hwnt i'r dosbarth. Er enghraifft, maent yn mynychu Gŵyl y Gelli neu'n gwahodd awduron i'r ysgol i ddarllen a thrafod nofelau. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau yn y gyllideb, mae'r profiadau yma wedi lleihau a phrin yw'r gweithdai sy'n cael eu cynnal a'r awduron sy'n ymweld ag ysgolion ers y pandemig.

Mae llawer o ysgolion cynradd a'r lleiafrif o ysgolion uwchradd a ymwelwyd â nhw yn cydweithio'n dda â'r gymuned leol i hybu darllen. Er enghraifft, mae gwirfoddolwyr yn dod mewn yn wythnosol i ddarllen gyda'r disgyblion ac mae taith wythnosol i'r llyfrgell leol yn rhoi boddhad mawr i nifer helaeth o ddisgyblion. Mae ysgolion Gwynedd yn gwneud defnydd effeithiol o gefnogaeth Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd i sicrhau arian ychwanegol yn flynyddol i'r ysgol i brynu adnoddau.

Mae **Ysgol Dyffryn Conwy** yn datblygu perthynas weithio effeithiol gyda chymuned ehangach yr ysgol er mwyn hyrwyddo manteision darllen. Mae gan yr ysgol brosiect cydweithio rhwng y siop lyfrau lleol, Llyfrgell Llanrwst a'r Cyngor Llyfrau. Mae'r ysgol yn trefnu ymweliadau rheolaidd i'r siop a'r llyfrgell er mwyn cynnig cyfleoedd i'r disgyblion weld yr arlwy o lyfrau darllen Cymraeg sydd ar gael. Mae'r disgyblion hefyd yn cael y cyfle i ddefnyddio eu talebau Cyngor Llyfrau yn ystod yr ymweliad i'r siop ac yn cael cyfarfod awduron megis Bethan Gwanas tra yno. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfle i ddarllen llyfrau Cymraeg cyfoes a chyfredol ac yn codi eu hymwybyddiaeth o'u cymuned leol.

# Atodiad 1

## Canfyddiadau yr holiadur i ddisgyblion

### Datblygu medrau darllen yn Gymraeg – Arolwg (Cwestiynau ag ymatebion caeedig)

### Cwestiwn 1 – Ym mha flwyddyn ysgol ydych chi?

Ymhlith y 2238 o ymatebwyr i'r arolwg hwn, mae 36% ym Mlwyddyn 7, 26% ym Mlwyddyn 9, 25% ym Mlwyddyn 8, ac 13% ym Mlwyddyn 6.

| Dewis Ateb | | Canran yr Ymatebion | Cyfanswm yr Ymatebion |
|---|---|---|---|
| 1 | 6 | 13% | 300 |
| 2 | 7 | 36% | 810 |
| 3 | 8 | 25% | 554 |
| 4 | 9 | 26% | 574 |
| | | **wedi ateb** | 2238 |
| | | **heb ateb** | 0 |


### Cwestiwn 2 – Ydych chi'n meddwl bod darllen yn bwysig?

Ymatebodd 2228 o ddysgwyr i'r cwestiwn hwn.

Mae dros hanner yr ymatebwyr (54%) yn meddwl bod darllen yn 'Eithaf pwysig'. Mae 40% o'r ymatebwyr yn meddwl bod darllen 'Yn bwysig iawn', a dim ond 6% yn meddwl bod darllen 'Ddim yn bwysig'.

- Mae mwyafrif (60%) dysgwyr Blwyddyn 6 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn meddwl bod darllen 'Yn bwysig iawn'
- Mae dros hanner (57%, 57%, 58%) ymatebwyr Blwyddyn 7, 8 a 9 yn meddwl bod darllen yn 'Eithaf pwysig'

| **Ydych chi'n meddwl bod darllen yn bwysig?** | | | |
|---|---|---|---|
| **Dewis Ateb** | | **Canran yr Ymatebion** | **Cyfanswm yr Ymatebion** |
| 1 | Pwysig iawn | 40% | 885 |
| 2 | Eithaf pwysig | 54% | 1206 |
| 3 | Ddim yn bwysig | 6% | 137 |
| | | ***wedi ateb*** | **2228** |
| | | ***heb ateb*** | **10** |





**Cwestiwn 3 – Ydych chi'n mwynhau darllen llyfrau Cymraeg?**

Ymatebodd 2225 o ddysgwyr i'r cwestiwn hwn.

Dewisodd dros hanner yr ymatebwyr (52%) 'Nac ydw', sef nad ydynt yn mwynhau darllen llyfrau Cymraeg. A dewisodd 48% 'Ydw', sef eu bod yn mwynhau darllen llyfrau Cymraeg.

Ymatebodd y mwyafrif o ymatebwyr Blwyddyn 6 (66%) a thua hanner Blwyddyn 7 (53%) trwy ddweud 'Ydw' i'r cwestiwn hwn, ac ymatebodd dros hanner ymatebwyr Blwyddyn 8 (57%) a'r mwyafrif o ymatebwyr Blwyddyn 9 (64%) trwy ddweud 'Nac ydw' i'r cwestiwn hwn.

| **Ydych chi'n mwynhau llyfrau Cymraeg?** | | | |
|---|---|---|---|
| **Dewis Ateb** | | **Canran yr Ymatebion** | **Cyfanswm yr Ymatebion** |
| 1 | Ydw | 48% | 1067 |
| 2 | Nac ydw | 52% | 1158 |
| | | ***wedi ateb*** | **2225** |
| | | ***heb ateb*** | **13** |




**Cwestiwn 4 – Beth yw eich hoff lyfr Cymraeg rydych chi wedi'i ddarllen yn yr ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf?**

Ymatebodd 2,108 o ddysgwyr i'r cwestiwn hwn.

Yr ymateb mwyaf cyffredin i'r cwestiwn hwn oedd i ymatebwyr ddatgan nad oedd ganddynt hoff lyfr Cymraeg. Mae'r awduron mwyaf cyffredin y cyfeirir atynt gan ymatebwyr na enwodd lyfr wedi'u rhestru isod, yn nhrefn yr wyddor. Cyfeiriodd o leiaf 5 dysgwr gwahanol at yr holl awduron, neu'u cyhoeddiadau. Mae awduron y testunau gwreiddiol wedi'u rhestru, er y bydd llawer o'r cyhoeddiadau hyn wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg gan awdur arall.

| | | |
|---|---|---|
| Huw Aaron | Elidir Jones | Tom Palmer |
| Enid Blyton | Tudur Dylan Jones | Sioned Wyn Roberts |
| Guto Dafydd | T. Llew Jones | Manon Steffan Ros |
| Roald Dahl | Jeff Kinney | J K Rowling |
| Huw Davies | Sioned Lleinau | Alex T Smith |
| Hywel Griffiths | Caryl Lewis | Angharad Tomos |
| Bethan Gwanas | Sian Lewis | Mary Vaughan |
| Gwenno Hughes | Anni Llŷn | David Walliams |
| Meleri Wyn James | Gwyn Morgan | Casia Wiliam |


Roedd teitlau hynod boblogaidd, a grybwyllwyd gan o leiaf 20 o ymatebwyr, yn cynnwys 'Matilda', 'Charlie and the Chocolate Factory', 'Fi a Joe Allen', 'Diary of a Wimpy Kid', 'Twm Clwyd', 'Horrid Henry', 'Crwt yn y Cefn', 'Asiant A', 'Pen Dafad', 'Y Bancsi Bach', 'Jac', 'Darn Bach o Bapur', 'Sw Sara Mai', 'Tudur Budur' a 'Harry Potter'.

**Cwestiwn 5 – Ydych chi'n darllen cyfieithiadau o lyfrau Saesneg?**

Ymatebodd 2216 o ddysgwyr i'r cwestiwn hwn.

Dewisodd mwyafrif yr ymatebwyr 'Ydw', sef eu bod yn darllen cyfieithiadau o lyfrau Saesneg. A dewisodd 32% 'Nac ydw'.

| **Ydych chi'n darllen cyfieithiadau o lyfrau Saesneg?** | | | |
|---|---|---|---|
| **Dewis Ateb** | | **Canran yr Ymatebion** | **Cyfanswm yr Ymatebion** |
| 1 | Ydw | 68% | 1511 |
| 2 | Nac ydw | 32% | 705 |
| Os na, pam? | | | 694 |
| | | ***wedi ateb*** | **2216** |
| | | ***heb ateb*** | **22** |





## Cwestiwn 6 – Ydy'r llyfr cystal yn Gymraeg?

Ymatebodd 2161 o ddysgwyr i'r cwestiwn hwn.

Dewisodd dros hanner yr ymatebwyr (51%) 'Ydy', sef bod y llyfr cystal yn Gymraeg. Dewisodd ychydig llai na hanner ohonynt (49%) 'Nac ydy'.

O'r 1,511 o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn darllen cyfieithiadau o lyfrau Saesneg yn y cwestiwn blaenorol, ymatebodd 1485 o fyfyrwyr i gwestiwn 6. Mynegodd mwyafrif y dysgwyr hyn (62%) fod y llyfr cystal yn Gymraeg.

| **Ydy'r llyfr cystal yn Gymraeg?** | | | |
|---|---|---|---|
| **Dewis Ateb** | | **Canran yr Ymatebion** | **Cyfanswm yr Ymatebion** |
| 1 | Ydy | 51% | 1096 |
| 2 | Nac ydy | 49% | 1065 |
| Os na, pam? | | | 860 |
| | | ***wedi ateb*** | **2161** |
| | | ***heb ateb*** | **77** |




**Cwestiwn 7 – Pa mor aml ydych chi'n darllen llyfrau Cymraeg yn annibynnol?**


Ymatebodd 2232 o ddysgwyr i'r cwestiwn.

Dewisodd leiafrif (40%) o'r ymatebwyr eu bod yn darllen llyfrau Cymraeg yn annibynnol 'weithiau', rhoddodd 31% 'Anaml' yn ateb, dewisodd 23% 'Byth', a dim ond 6% a ddewisodd eu bod nhw 'Bob amser' yn darllen llyfrau Cymraeg yn annibynnol.

O'r dysgwyr a ymatebodd ym Mlwyddyn 6, dewisodd lawer (70%) eu bod yn darllen llyfrau Cymraeg yn annibynnol naill ai 'Bob amser' neu 'Weithiau'. Ym Mlwyddyn 7, dewisodd ychydig dros hanner (51%) yr ymatebwyr naill ai 'Bob amser' neu 'Weithiau'.

O'r dysgwyr a ymatebodd ym Mlwyddyn 8, dewisodd dros hanner (59%) eu bod yn darllen llyfrau Cymraeg yn annibynnol naill ai'n 'Anaml' neu 'Byth'. Ym Mlwyddyn 9, dewisodd y mwyafrif (70%) hefyd eu bod yn darllen llyfrau Cymraeg yn annibynnol naill ai'n 'Anaml' neu 'Byth'.

| **Pa mor aml ydych chi'n darllen llyfrau Cymraeg yn annibynnol?** | | | |
|---|---|---|---|
| **Dewis Ateb** | | **Canran yr Ymatebion** | **Cyfanswm yr Ymatebion** |
| 1 | Bob amser | 6% | 135 |
| 2 | Weithiau | 40% | 888 |
| 3 | Anaml | 31% | 695 |
| 4 | Byth | 23% | 514 |
| | | ***wedi ateb*** | **2232** |
| | | ***heb ateb*** | **6** |




**Cwestiwn 8 – A oes yna rai pethau sy'n achosi rhwystrau i chi wrth ddarllen llyfrau Cymraeg?**

Mae hwn yn gwestiwn penagored. Ymatebodd 2012 o ddysgwyr i'r cwestiwn hwn. Y prif rwystrau wrth ddarllen llyfrau Cymraeg oedd

- yr eirfa a'r dafodiaith ddieithr
- y prinder dewis o bynciau diddorol yn y Gymraeg

**Cwestiwn 9 – Ydych chi'n cael cyfle i ddarllen oddi ar ddyfeisiau electronig, fel cyfrifiaduron llechen, yn yr ysgol?**

Ymatebodd 2213 o ddysgwyr i'r cwestiwn hwn.

Dewisodd dros hanner yr ymatebwyr (55%) i'r cwestiwn hwn 'Ydw', sef eu bod yn cael cyfle i ddarllen oddi ar ddyfeisiau electronig, fel cyfrifiaduron llechen, yn yr ysgol. Dewisodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (94%) ym Mlwyddyn 6 'Ydw' yn ateb, yn ogystal â thros hanner (53%) yr ymatebwyr ym Mlwyddyn 7. Fodd bynnag, 'Nac ydw' oedd ateb dros hanner yr ymatebwyr ym Mlwyddyn 8 a 9 (55% a 52%, yn y drefn honno).

| **Ydych chi'n cael cyfle i ddarllen oddi ar ddyfeisiau electronig, fel cyfrifiaduron llechen, yn yr ysgol?** | | | |
|---|---|---|---|
| **Dewis Ateb** | | **Canran yr Ymatebion** | **Cyfanswm yr Ymatebion** |
| 1 | Ydw | 55% | 1223 |
| 2 | Nac ydw | 45% | 990 |
| Os ateboch 'ydw', pryd ac ar gyfer beth? | | | 927 |
| | | ***wedi ateb*** | **2213** |
| | | ***heb ateb*** | **25** |

**Cwestiwn 10 – Pa bynciau ydych chi'n darllen deunydd Cymraeg ynddyn nhw (heblaw Cymraeg fel pwnc)?**


Mae hwn yn gwestiwn penagored. Ymatebodd 2099 o ddysgwyr i'r cwestiwn hwn. Gwnaed y sylw gan sawl un eu bod yn darllen deunydd Cymraeg ymhob pwnc heblaw Saesneg ac Ieithoedd Tramor. Pan enwyd y pynciau, y rhai mwyaf cyffredin oedd gwersi dyniaethau (hanes ac addysg grefyddol yn fwyaf penodol), gwyddoniaeth, drama. Nododd rhai hefyd eu bod yn darllen yn ystod cyfnod cofrestru.

**Cwestiwn 11 – Pa fath o dasgau ydych chi'n eu gwneud gyda'r deunydd darllen? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

Ymatebodd 2170 o ddysgwyr i'r cwestiwn hwn.

Pan ofynnwyd y cwestiwn pa fath o dasgau ydych chi'n eu gwneud gyda'r deunydd darllen, dewisodd lawer o'r ymatebwyr (84%) 'Ymchwil' a dewisodd 73% 'Dod o hyd i ffeithiau'. Dewisodd llai na hanner yr ymatebwyr (44.3%) 'Rhesymu a dod i gasgliad' a 37% 'Dadansoddi Ffynonellau'.

| **Pa fath o dasgau ydych chi'n eu gwneud gyda'r deunydd darllen? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Dewis Ateb** | | **Canran yr Ymatebion** | **Cyfanswm yr Ymatebion** |
| 1 | Dod o hyd i ffeithiau | 73% | 1589 |
| 2 | Dadansoddi ffynonellau | 37% | 791 |
| 3 | Ymchwil | 84% | 1823 |
| 4 | Rhesymu a dod i gasgliad | 44% | 961 |
| 5 | Arall (nodwch): | 20% | 430 |
| | | ***wedi ateb*** | **2170** |
| | | ***heb ateb*** | **68** |



## Dulliau a sail y dystiolaeth

Mae’r adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau â sampl o ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed, yn ogystal â thystiolaeth o arolygiadau a gynhaliwyd yn 2023-24. Dewiswyd ysgolion ar sail eu maint, eu lleoliad daearyddol a’u ffactorau economaidd-gymdeithasol. Mae’r adroddiad yn canolbwyntio ar fedrau darllen Cymraeg disgyblion yn unig. Cyhoeddwyd adroddiad ar wahân yn Mai 2023 ar sut mae ysgolion yn datblygu medrau darllen Saesneg disgyblion ar draws y cwricwlwm mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

O ran cyfanswm, ymwelodd AEF neu arolygwyr cymheiriaid ag 20 o ysgolion. Er mwyn casglu tystiolaeth o sut roedd clystyrau o ysgolion yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion yn ystod y cyfnod pontio, ymwelom â phedair ysgol gynradd ynghyd ag ysgolion uwchradd eu dalgylch. Ymwelom hefyd â phedair ysgol bob oed lle casglom dystiolaeth ar ddysgu a darpariaeth ar gyfer disgyblion 10-14 oed. Yn ogystal, fe wnaethom ymweld â dwy uned drochi ac un canolfan iaith.

Ym mhob ysgol yr ymwelwyd â hi, bu arolygwyr:

- yn arsylwi sesiynau yn nosbarthiadau Blwyddyn 6 neu amrywiaeth o wersi ar draws y cwricwlwm ym Mlynyddoedd 7-9
- yn cyfarfod â grwpiau bach o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 6, 7, 8 a 9 i drafod eu hagweddau at ddarllen a sut mae eu hysgolion yn eu helpu i ddatblygu eu medrau darllen
- yn cyfweld â’r cydlynydd llythrennedd i drafod y strategaethau y mae’r ysgol yn eu defnyddio i ddatblygu medrau darllen disgyblion
- yn cyfweld â’r cydlynydd pontio i drafod darpariaeth yn y cyfnod pontio
- yn craffu ar waith disgyblion
- yn craffu ar unrhyw becyn cymorth llythrennedd / darllen a chynllun pontio os oedd gan yr ysgol y dogfennau hyn a chynlluniau datblygu ysgolion
- yn cyfarfod â’r pennaeth ar ddechrau’r diwrnod i gadarnhau trefniadau, ac ar ddiwedd y diwrnod i roi adborth ar y prif ganfyddiadau o’r ymweliad

Roedd y sampl gymharol fach o ysgolion y gwnaethom allu ymweld â nhw ar gyfer yr adolygiad thematig hwn yn golygu ein bod ni hefyd wedi defnyddio tystiolaeth o arolygiadau o ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed y tu allan i’r sampl a gynhaliwyd yn 2023-24 wrth werthuso dysgu’r disgyblion. Rydym hefyd wedi ystyried ystod o ymchwil genedlaethol a rhyngwladol ar ddatblygu medrau llythrennedd a darllen disgyblion. Fodd bynnag, mae'r prif ganfyddiadau'n tynnu ar dystiolaeth o'r ymweliadau thematig, y wybodaeth a gasglwyd o arolygiadau yn ystod blwyddyn academaidd 2023-24 a'r arolwg a'r holiadur a gwblhawyd gan ddisgyblion ledled Cymru.

Hoffai Estyn ddiolch i'r ysgolion canlynol a gefnogodd yr adolygiad thematig hwn:

| Ysgol | Disgifiad | Awdurdod |
|---|---|---|
| Ysgol Corn Hir | Cynradd | Ynys Môn |
| Ysgol Gynradd Tudweiliog | Cynradd | Gwynedd |
| Ysgol Bro Gwydir | Cynradd | Conwy |
| Ysgol Gymraeg Llangennech | Cynradd | Sir Gaerfyrddin |
| Ysgol Gynradd Penygroes | Cynradd | Sir Gaerfyrddin |
| Ysgol Berllan Deg | Cynradd | Caerdydd |
| Ysgol Garnedd | Cynradd | Gwynedd |
| Ysgol Bro Teifi | Pob oed | Ceredigion |
| Ysgol Henry Richard | Pob oed | Ceredigion |
| Ysgol Bro Idris | Pob oed | Gwynedd |
| Ysgol Bro Preseli | Pob oed | Sir Benfro |
| Ysgol Y Strade | Uwchradd | Sir Gaerfyrddin |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin | Uwchradd | Sir Gaerfyrddin |
| Ysgol Bro Dinefwr | Uwchradd | Sir Gaerfyrddin |
| Ysgol Dyffryn Ogwen | Uwchradd | Gwynedd |
| Ysgol Tryfan | Uwchradd | Gwynedd |
| Ysgol Glan y Môr | Uwchradd | Gwynedd |
| Ysgol Uwchradd Glan Clwyd | Uwchradd | Dinbych |
| Ysgol Cwm Rhymni | Uwchradd | Caerffili |
| Ysgol Bro Edern | Uwchradd | Caerdydd |

# Geirfa

**Darllen ar goedd** — Darllen allan yn uchel i eraill glywed

**Darllen dan arweiniad / Darllen dwyochrog** — Mae disgyblion yn darllen testunau mewn grwpiau, fel arfer gyda disgyblion eraill sy'n debyg o ran gallu, naill ai'n dawel neu ar goedd

**Darllen yn annibynnol** — Disgyblion yn darllen ar eu pen eu hunain

**Diwylliant darllen** — Amgylchedd lle caiff darllen ei hyrwyddo, ei werthfawrogi, ei barchu a'i annog yn llwyddiannus fel bod llawer o ddisgyblion yn mwynhau darllen er pleser, yn ogystal ag i ddysgu

**Medrau darllen sylfaenol** — Medrau sy'n galluogi disgyblion i ddeall testunau. Mae medrau darllen sylfaenol yn galluogi disgyblion i ddechrau gwneud synnwyr o destunau ac maent yn cynnwys datgodio geiriau, meithrin rhugldder a deall a chaffael geirfa. Mae meistroli medrau darllen sylfaenol yn galluogi darllenwyr i gynyddu eu cyflymder darllen, eu dealltwriaeth a'u geirfa gyffredinol

**Uwch-fedrau darllen** — Medrau sy'n galluogi disgyblion i ddarllen amrywiaeth o ddeunyddiau, gan gynnwys testunau llenyddol ac anllenyddol cymhleth gyda hyder a dealltwriaeth. Maent yn cynnwys strategaethau y gall disgyblion eu defnyddio i ddatblygu dealltwriaeth lawnach o'r testun, eu hannog i ymgysylltu â'r testun a chwestiynu eu meddyliau. Mae uwch-fedrau darllen yn cynnwys cymhwyso gwybodaeth, dod o hyd i gysylltiadau, darllen rhwng y llinellau a thrin gwybodaeth i ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddarganfod atebion i broblemau

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau

Department for Education (2012) Research evidence on reading for pleasure. London: DfE. Ar gael ar lein: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a7c18d540f0b61a825d66e9/reading_for_pleasure.pdf

Department for Education (2023)*The* London: DfE Ar gael ar lein**:** https://assets.publishing.service.gov.uk/media/65830c10ed3c34000d3bfcad/The_reading_framework.pdf

Estyn (2018) *Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.* Caerdydd: Estyn. Ar gael ar lein: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Welsh%2520in%2520key%2520stage%25202%2520and%2520key%2520stage%25203%2520in%2520Welsh-medium%2520or%2520bilingual%2520schools%2520Cy.pdf

Estyn (2021) *Caffael yr iaith Gymraeg: Sut mae lleoliadau ac ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr.* Caerdydd: Estyn. Ar gael ar lein: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-08/Estyn%20Welsh%20language%20acquisition%20W%284%29.pdf

Estyn (2022) *Addysg Drochi Cymraeg: Strategaethau a dulliau i gefnogi dysgwyr 3-11 mlwydd oed.* Caerdydd: Estyn. Ar gael ar lein: https://www.estyn.llyw.cymru/document-page/20964/cynnwys

Estyn (2023) *Cefnogi'r Gymraeg yn Addysg Gychwynnol Athrawon.* Caerdydd: Estyn. Ar gael ar lein: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2023-09/Cefnogi%E2%80%99r%20Gymraeg%20yn%20Addysg%20Gychwynnol%20Athrawon.pdf

Estyn (2023) *Datblygu medrau darllen Saesneg disgyblion o 10-14 mlwydd oed.* Caerdydd: Estyn. Ar gael: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2023-05/Datblygu%20medrau%20darllen%20Saesneg%20disgyblion%20o%2010-14%20mlwydd%20oed.pdf

Estyn (2024) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2022-23.* Caerdydd: Estyn. Ar gael: https://adroddiad-blynyddol.estyn.llyw.cymru/

Llywodraeth Cymru (2008) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar lein: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-2008/fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol-fersiwn-cwricwlwm-2008/

Llywodraeth Cymru (2019) *Asesiadau darllen a rhifedd.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar lein: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/asesiadau-darllen-a-rhifedd/

Llywodraeth Cymru (2021) Datganiad Llafar: Llafaredd a Darllen Plant. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar lein: https://www.llyw.cymru/datganiad-llafar-llafaredd-darllen-plant

Llywodraeth Cymru (2022a) *Cwricwlwm i Gymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar lein: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru

Llywodraeth Cymru (2022b) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar lein**:** https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/fframweithiau-sgiliau-trawsgwricwlaidd/fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd/

Llywodraeth Cymru (2023) *Patrymau cyrhaeddiad mewn darllen a rhifedd: o 2018/19 i 2022/23.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar lein: https://www.llyw.cymru/patrymau-cyrhaeddiad-mewn-darllen-rhifedd-o-2018-19-i-2022-23

Topping, K, & Clark, C. (2023) *What and how kids are reading: 2023 edition.* Ar gael ar lein: https://renaissance.widen.net/view/pdf/priipdurrj/UK-What-Kids-Are-Reading-report-2023.pdf?t.download=true&u=zceria

Ymchwil y Senedd (2021) Darllen rhwng y llinellau: Sgiliau llythrennedd plant Cymru. Caerdydd: Senedd Cymru. Ar gael ar lein**:** https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/darllen-rhwng-y-llinellau-sgiliau-llythrennedd-plant-cymru/